# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod Anghysbell a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, M.J.G. Morgan a J.N. Norman.

Hefyd yn bresennol: Mae C.A. Ludvigsen (Ymgeisydd), N. Gannon-Johns (Ymgeisydd), K. Brook (Swyddog Trwyddedu – Cyngor Bro Morgannwg), K. Evans (Swyddog Trwyddedu – Cyngor Bro Morgannwg), Cynghorydd S. Wiliam (Cyngor Bro Morgannwg), M. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Bro Morgannwg) ac R. Price (Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w weld yn y dyfodol. ”

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Caniatáu Trwydded Safle – View 62, Friars Road, y Barri, CF62 5TR (AT) –

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais gan View 62 Ltd am Drwydded Safle yn View 62, Friars Road, Y Barri, Bro Morgannwg, CF62 5TR.

Roedd y cais yn gofyn am allu gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

- Dydd Sul i ddydd Iau: 10:00 tan 22:45; a
- Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 10:00 i 01:00; ac
- Oriau ansafonol fel y nodir yn yr adroddiad ym mharagraff 1.3

Adloniant Rheoledig - byddai cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio rhwng 23:00 a 01:30 ynghyd â'r amseriadau ansafonol fel y nodir yn yr adroddiad.

Yr oriau masnachu arferol oedd:

- Dydd Llun i ddydd Iau a dydd Sul: 08:00 tan 23:00;
- Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 08:00 tan 01:30;
- Gwyliau'r banc: 08:00 tan 01:30.

Mynychwyd y gwrandawiad gan yr ymgeiswyr Ms. Ludvigsen a Mr. Gannon-Johns.

Amlinellodd y Swyddog Trwyddedu yr adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol. Nododd y swyddog fod y safle wedi'i drwyddedu'n flaenorol dan drwydded arall gyda'r safle cyfagos. Ar hyn o bryd roedd yn masnachu dan oriau gydag alcohol yn cael ei werthu tan 22.45 ac ar hyn o bryd roedd cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio yn cwympo o fewn dadreoleiddio cerddoriaeth. Teimlwyd y dylai'r safle weithredu dan ddwy drwydded ar wahân, a dyna'r rheswm am y cais.

Cafwyd sylwadau gan dri thrigolyn lleol a oedd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, yn ogystal â sylwadau ychwanegol gan un o'r trigolion hyn, yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad. Roedd hyn wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau ar wahân a'i gyhoeddi gyda'r agenda ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Nid oedd yr un Awdurdod Cyfrifol wedi cyflwyno sylwadau perthnasol nac wedi mynychu'r cyfarfod. Roedd Awdurdod Heddlu De Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd wedi cytuno ar amodau i'w cynnwys ar y drwydded gyda'r ymgeisydd ac felly ni wrthwynebwyd y cais am drwydded. Roedd y rhain yn Atodiadau C a D yr adroddiad yn y drefn honno.

Dywedodd yr ymgeisydd fod 21 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD) wedi rhedeg drwy'r haf yn y safle heb broblem. Byddai'r cais yn caniatáu i'r ymgeiswyr beidio â gorfod gwneud cais am HDDDau pe bai'r drwydded safle yn cael ei hymestyn yn y dyfodol. Dywedodd nad oedd y safle, ers yr haf, wedi bod yn masnachu heibio 22:00. Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd y safle yn debygol o fod yn rhedeg heibio 22:00 ac eithrio ar gyfer digwyddiadau fel Calan Gaeaf neu Beaujolais a digwyddiadau arbennig eraill. Byddai'r safle'n cael ei drwyddedu'n ddiweddarach at y dibenion hyn dan y drwydded safle newydd. Dywedodd yr ymgeisydd eu bod wedi gwneud negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol am eu cynigion a'u bod wedi gwahodd trigolion lleol i'r safle ac wedi rhedeg drwy'r cynnig a'r bwriad i weithredu tan 01:30. Y prif bryder oedd sŵn o'r tu allan i'r safle a dywedodd fod hyn wedi cael sylw gyda drysau newydd a oedd yn cael eu gosod y bore hwnnw a'r seinyddion cerddoriaeth yn cael eu symud y tu mewn ynghyd â'r defnydd o llenni blocio sain.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman sut roedden nhw'n delio gyda chwsmeriaid yn mynd ag alcohol y tu allan i ysmygu. Dywedwyd wrthi fod staff diogelwch yn rheoli'r mater hwn. Dywedodd yr ymgeisydd na chaniateir mynd ag unrhyw alcohol heibio'r drysau. Yn ystod yr haf gyda'r nosweithiau golau nid oedd y

drwydded newydd yn caniatáu mynd â diodydd y tu allan ar ôl 21:00. Dim ond 15 o bobl a oedd yn cael ysmygu ar un adeg mewn ardal ysmygu ac roedd blychau llwch yno. Dywedodd ei fod wedi cael ei ganmol am gadw blaen yr adeilad yn daclus gan staff y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan am gefndir yr adeilad a dywedwyd wrtho fod yr adeilad yn cael ei adnabod yn draddodiadol fel 'The Dolphin' a bod ei enw wedi newid nifer o weithiau dros y blynyddoedd. Roedd demograffig y cwsmeriaid yn gynulleidfa hŷn ac roedd yn seiliedig ar gerddoriaeth. Roedd yn seiliedig ar 'awyrgylch gwyliau' ac roedd wastad wedi bod yn dŷ tafarn. Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw broblemau na chwynion rheolaidd am y safle. Roedd cyfyngydd ar y tŷ cymysgu o ran lefel sain y gerddoriaeth a chafodd y seinydd ei symud y tu mewn. Dywedodd yr ymgeisydd eu bod yn lleol ac yn dymuno hyrwyddo digwyddiadau cadarnhaol ar gyfer yr Ynys.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman am gymdogion yn cysylltu ag ef. Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorydd fod rhif cyswllt ac y gellid defnyddio Facebook Messenger i gysylltu â'r lleoliad.

Gofynnodd y Cynghorydd Drake am ddiffibriliwr a dywedwyd wrtho ei fod ger Caffi Marcos, tua thair munud o gerdded o'r lleoliad, a bod yr ymgeisydd hefyd yn barafeddyg.

Dywedodd y Cynghorydd Wiliam, gyda chaniatâd i siarad, fod y gymuned yn cefnogi’r safle. Dywedodd hefyd ei fod yn cefnogi’r cais fel yr Aelod Ward Etholedig lleol.

Mae sylwadau ysgrifenedig yr holl bartïon wedi cael eu hystyried.

Heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb sylwadau pellach gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti gan yr Awdurdod Trwyddedu o fewn pum diwrnod gwaith.

Yn dilyn hyn, gwnaeth yr Ymgeisydd a’r Swyddog Trwyddedu a oedd yn bresennol ddatgysylltu o'r cyfarfod o bell, fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – BOD y cais am drwydded safle ar gyfer yr oriau y gwnaethpwyd cais amdanynt, gyda'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd yn Atodiad A yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros y penderfyniad

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos cryn amser o weithredu'r safle dan Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro. Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr heddlu mewn perthynas â throsedd ac anhrefn ac ni chyflwynwyd unrhyw faterion mewn perthynas â sŵn gan Iechyd yr Amgylchedd. Yn yr un modd, roedd materion yn ymwneud â sŵn wedi cael sylw gyda'r drws newydd, y

llen a dod â'r seinydd y tu mewn.  Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeiswyr wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus ac amlinellodd y Cynghorydd Wiliam (Aelod Ward) fod y rhan fwyaf o'r trigolion yn cefnogi'r cais.  Roedd y Pwyllgor yn fodlon, pan oedd y safle wedi treialu oriau trwyddedu estynedig, nad oedd yr un o'r amcanion trwyddedu wedi'u sbarduno.  Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o’r ffaith y gallai'r drwydded gael ei hadolygu pe bai'r amrywiad yn effeithio ar amcanion trwyddedu.

Wrth ddod i'r penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.  Roedd Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd wedi cael ei hystyried, yn enwedig yr amcanion trwyddedu, yn ogystal â Chanllawiau'r Swyddfa Gartref a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.